



ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNLLUNIAU YMWELIADAU GWIRFODDOL 2025-2026

Law yn Llaw
at Dde Cymru
diogel, cyfiawn
a chynhwysol

Together for
a safe, just
and inclusive
South Wales

Comisiynydd
yr Heddlu a
Throseddu
De Cymru

South Wales
Police
and Crime
Commissioner

Rhagair gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu	2
Ymweld yn Annibynnol â'r Dalfeydd	3-4
Dalfeydd Heddlu De Cymru	4
Ein Hymwelwyr Gwirfoddol â Dalfeydd	5-8
Data ynghylch ICVs	9-10
Canfyddiadau ICVs	11-12
Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd	13
Y Cynllun Ymweliadau Lles Anifeiliaid	14-16
Myfyrdodau Heddlu De Cymru	17
Yn Edrych Ymlaen at 2026/27	18
Cysylltu â ni	19

Rhagair gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cynlluniau Ymweliadau Gwirfoddolwyr ar gyfer 2025-2026.

Mae'r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd a'r Cynllun Ymweliadau Lles Anifeiliaid yn rhan annatod o'm rôl wrth ddwyn Heddlu De Cymru i gyfrif ar ran pobl de Cymru. Drwy graffu annibynnol, mae'r cynlluniau yn darparu tryloywder a sicrwydd ac yn helpu i gynnal hyder y cyhoedd mewn plismona.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at gyfraniad amhrisiadwy ein gwirfoddolwyr annibynnol, hebddynt na fyddai'r cynlluniau hyn yn bodoli. Mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn parhau i fod yn ddull diogelu pwysig drwy sicrhau bod pobl sy'n cael eu cadw yn nalfeydd yr heddlu yn cael eu trin ag urddas, parch a thegwch, a bod eu hawliau'n cael eu cynnal. Yn yr un modd, mae Ymwelwyr Lles Anifeiliaid yn rhoi sicrwydd annibynnol hanfodol bod cŵn a cheffylau Heddlu De Cymru, sy'n chwarae rhan bwysig yn nheulu Heddlu De Cymru, yn cael y safonau uchaf o ofal a bod eu hanghenion lles yn cael eu diwallu'n gyson.



Hoffwn ddiolch i swyddogion a staff Heddlu De Cymru am eu proffesiynoldeb a'u cydweithrediad parhaus tuag at y ddau gynllun, gan weithredu ar faterion a godwyd gan wirfoddolwyr.

Yn olaf, hoffwn fynegi fy nioelchgarwch diffuant i'r holl wirfoddolwyr, yn y gorffennol ac yn awr, am yr amser, yr ymrwymiad a'r sgiliau y maent yn eu cynnig i'r cynlluniau ymweld hyn. Mae eu cyfraniad yn amhrisiadwy, ac rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi datblygiad parhaus y ddau gynllun.

Ymweld yn Annibynnol â Dalfeydd

Beth yw Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd?

Daeth y cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICV), a sefydlwyd yn wreiddiol ar sail wirfoddol, yn ofyniad statudol drwy Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002, gan gyflwyno'r Codes of Practice for Independent Custody Visiting. Yna yn sgîl Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 cyflwynwyd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a rhoddwyd y cyfrifoldeb iddynt am weithredu a goruchwyllo'r cynllun yn ardal eu heddlu.

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru yn gyfrifol am gynnal y cynllun yn ne Cymru, penodi gwirfoddolwyr ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVs) yn wirfoddolwyr penodedig sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yn ne Cymru. Eu rôl yw cynnal ymweliadau dirybudd ag ystafelloedd â dalfeydd yr Heddlu yn ne Cymru i fonitro lles pobl sydd wedi'u cadw yno. Mae'r cynllun yn fecanwaith effeithiol ar gyfer goruchwyllo dalfeydd yr heddlu yn annibynnol, gan roi sicrwydd gwerthfawr i'r cyhoedd bod unigolion sy'n cael eu cadw yn nalfeydd yr heddlu yn cael eu trin yn deg, yn briodol ac ag urddas. Mae'r cynllun yn chwarae rhan bwysig wrth hyrwyddo tryloywder, atebolrwydd a hyder y cyhoedd yn Heddlu De Cymru, gan gefnogi blaenoriaeth allweddol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Rôl Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd



Siarad â phobl sy'n cael eu cadw yn y ddalfa a gwirio eu cofnodion yn y ddalfa i sicrhau bod eu hawliau yn cael eu bodloni wrth fod yn y ddalfa.



Adrodd ar gyflwr ffisegol cyfleusterau'r ddalfa.



Cofnodi canfyddiadau eu hymweliad ar ffurflen adroddiad am ymweliad i Reolwr y Cynllun, gan gynnwys tynnu sylw at unrhyw bryderon neu arferion da.



Mynychu a chyfranogi mewn Cyfarfodydd Panel y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ar sail chwarterol, hyfforddiant rheolaidd a'r gynhadledd flynyddol.

Trosolwg o'r Cynllun yn Ne Cymru

Mae Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICV) De Cymru yn cael ei gefnogi gan ddau Reolwr Cynllun sy'n goruchwyllo gweithrediad cyffredinol y cynllun ar ran y Comisiynydd. Mae Rheolwyr y Cynllun yn gyfrifol am reoli gweithrediad y cynllun o ddydd i ddydd, ymdrin ag unrhyw ymholiadau neu broblemau gyda staff y ddalfa, trefnu cyfarfodydd panel chwarterol lle mae gwirfoddolwyr a staff y ddalfa yn dod at ei gilydd i drafod unrhyw faterion ac amlinellu arferion da a darparu unrhyw hyfforddiant a chefnogaeth i'n gwirfoddolwyr.

Yn 2025–26, cefnogwyd Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa De Cymru gan 14 o wirfoddolwyr (ym mis Mawrth 2026) ar draws dau banel, sef y Dwyrain a'r Gorllewin. Mae panel y Dwyrain yn cwmpasu dalfeydd ym Merthyr a Bae Caerdydd ac mae Panel y Gorllewinol yn cwmpasu dalfeydd yn Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr.



Mae'r paneli yn cwrdd bob chwarter mewn cyfarfodydd panel ar y cyd a gynhelir gan Reolwyr y Cynllun ym Mhencadlys yr Heddlu ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Drwy'r panel gall gwirfoddolwyr o bob ardal ddod at ei gilydd i drafod materion a gwahaniaethau cyffredin ledled de Cymru, cwrdd â Heddlu De Cymru i godi unrhyw faterion, pryderon neu i nodi arferion da ac i ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant y mae ei angen.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch y cynllun rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026.

Dalfeydd Heddlu De Cymru

Mae Heddlu De Cymru yn gweithredu 4 dalffa:

- Bae Caerdydd - 60 o gelloedd
- Merthyr Tudful- 42 o gelloedd
- Abertawe- 27 o gelloedd
- Pen-y-bont ar Ogwr-42 o gelloedd

NIFER YR ARESTIADAU GWREIDDIOL* SY'N ARWAIN AT DDAL YR UNIGOLYN:

*Mae arestiad gwreiddiol yn cyfeirio at y drosedd a arweiniodd at yr unigolyn yn cael ei arestio a'i gadw yn y ddalfa am y tro cyntaf. Ar ôl hyn, gall unigolyn gael ei arestio am ragor o droseddau. Defnyddir y term hwn i osgoi cyfrif dwbl.

Mae'r dalfeydd ym Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr yn gyfleusterau unfath a adeiladwyd yn 2014 y tu allan i ganol y trefi. Mae Gorsaf Heddlu Ganolog Abertawe yn cynnwys y ddalfa fwyaf hirsefydlog yn ne Cymru, ac mae gan Orsaf Heddlu Bae Caerdydd, a gwblhawyd yn 2009, ddalfa wedi'i threfnu dros ddwy lefel.

25,501





Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
South Wales Police and Crime Commissioner

Ein Hymwelwyr Gwirfoddol â Dalfeydd

Demograffeg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Ymwelwyr⁸

14
o wirfoddolwyr
(Ym mis Mawrth 2026)



Demograffeg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Ymwelwyr

Anabledd	Gwirfoddolwyr
Oes	21%
Nac oes	71%
Heb ei nodi	7%
Crefydd	Gwirfoddolwyr
Cristnogaeth	29%
Mwslimiaid	14%
Dim crefydd	43%
Gwell gennyf beidio â dweud	14%




Cyfeiriadedd Rhywiol	Gwirfoddolwyr
Hoyw/Lesbiaidd/De urywiol	21%
Heterorywiol/Syth	71%
Heb ei nodi	7%
Y Gymraeg	Gwirfoddolwyr
Yn siarad Cymraeg	0%
Ddim yn siarad Cymraeg	93%
Yn dysgu Cymraeg	7%



Demograffeg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Ymwelwyr

Ethnigrwydd



Mae cynllun Gwirfoddolwyr Annibynnol â Dalfeydd De Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod ei wirfoddolwyr yn adlewyrchu amrywiaeth cymunedau ledled de Cymru. Yn ystod 2025/26, cynhaliodd y cynllun sawl ymgyrch recriwtio, gyda chymorth Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuencid Cymru (EYST), i helpu i gynyddu amrywiaeth y garfan o wirfoddolwyr ac annog ceisiadau gan grwpiau wedi'u tangynrychioli.

O ganlyniad i'r ymdrechion recriwtio hyn, mae sawl gwirfoddolwr wedi ymuno â'r cynllun, mae rhai eisoes yn ymweld â dalfeydd ac mae eraill ar hyn o bryd yn symud ymlaen drwy'r broses ymsefydlu.

Mae'r cynllun wedi cael cynnydd cadarnhaol o ran nifer y gwirfoddolwyr o gefndiroedd du ac ethnig leiafrifol, gan helpu i sicrhau bod y garfan o wirfoddolwyr yn adlewyrchu'n well y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Mae'r Swyddfa yn diolch i EYST am eu cymorth gwerthfawr drwy gydol yr ymgyrch recriwtio. Mae eu cymorth wedi chwarae rhan bwysig wrth ehangu ymgysylltiad a denu ystod fwy amrywiol o ymgeiswyr i'r cynllun.

Hyfforddiant a Datblygu

Mae ICVs yn cael hyfforddiant a chymorth drwy gydol y flwyddyn i wella eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u hyder.

Ym mis Tachwedd 2025, lansiodd y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA) blatfform e-ddysgu newydd ar gyfer ICVs sy'n darparu pecynnau hyfforddiant a dysgu cynhwysfawr y mae gan bob gwirfoddolwr fynediad atynt.

Hefyd cafodd ymwelwyr hyfforddiant gan staff dalfeydd ar arolygu cofnodion y ddalfa, gan eu helpu i nodi gwybodaeth berthnasol yn fwy effeithiol a chynyddu eu hyder wrth gyflawni'r agwedd hon ar eu rôl.

Roedd hyfforddiant ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys Dulliau sy'n ystyriol o Drawma, yr Adolygiad Annibynnol o Ddedfrydu, diogelwch ar-lein, a hyfforddiant gloywi ar ôl tair blynedd ar gyfer gwirfoddolwyr cymwys.



Hefyd, cyflwynodd Rheolwyr y Cynllun sesiynau hyfforddi i swyddogion a rhingylliaid newydd mewn dalfeydd ym Mhencadlys Heddlu De Cymru. Gwnaeth y sesiynau hyn roi trosolwg o'r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, gan helpu i feithrin perthnasoedd cadarnhaol a chynyddu ymwybyddiaeth o rôl ICVs.

Lleisiau Gwirfoddolwyr

Eleni, ymatebodd gwirfoddolwyr i arolwg blynyddol dienw a roddodd ddealltwriaeth i Reolwyr y Cynllun o sut roedd ICVs yn teimlo am y rôl a lle y gellid gwneud gwelliannau.

Pan ofynnwyd iddynt pa mor werthfawr roeddent yn teimlo yn eu rôl fel ICV, rhoddodd gwirfoddolwyr sgôr gyfartalog o 4.29 allan o 5, gan nodi lefel uchel o foddhad a chydabyddiaeth.

4.29

**Sgôr ar
Gyfartaledd**

Rhoddodd gwirfoddolwyr adborth ar hyfforddiant ychwanegol a hoffent, sy'n cael ei gynnwys yng nghynllun hyfforddi 2026/27. Roedden nhw'n teimlo eu bod wedi cael gwybodaeth a diweddariadau, ond roeddent eisiau gweld ymatebion cyflymach i faterion a godwyd mewn ffurflenni adroddiadau. Mae Rheolwyr y Cynllun a Rheolwyr Dalfeydd bellach yn ymdrin â hyn.


**'Rwy'n
mwynhau
gweithio
fel rhan o'r
tîm'**

**'Wrth fy
modd, yn
cael llawer
o gymorth'**



Data ynghylch ICVs

Data am Ymweliadau



Yn ystod 2025/26, gwnaed cyfanswm o 64 o ymweliadau â dalfeydd. Fodd bynnag, rhoddwyd y gorau i bedwar o'r ymweliadau ar y diwrnod oherwydd busnes y dalfeydd, lefelau staffio neu argyfwng meddygol.

Nifer yr ymweliadau gan ICVs	Nifer y carcharorion a gafodd ymweliad gan ICV	Nifer y carcharorion a gafodd ymweliad neu eu gweld gan ICV	Nifer y carcharorion yn y ddalfa ar adeg yr ymweliad	Canran y bobl wedi'u gweld, yn y ddalfa ar adeg yr ymweliad
60	200	322	596	54%

Fel a ddangoswyd uchod, ymwelodd ICVs â 200 o garcharorion yn ystod y cyfnod hwn, a gwnaethant arsylwi ar 122 arall. Efallai na fydd carcharorion ar gael ar gyfer ymweliad am ystod o resymau, gan gynnwys bod yn cysgu, yn feddw, bod mewn cyfweliad, bod yn defnyddio cyfleusterau hylendid, neu pan fo staff y ddalfa yn cynghori yn erbyn ymweliad oherwydd trallod neu ymddygiad ymosodol. Hefyd gall carcharorion ddewis gwrthod ymweliad.

Yn ystod 2025/26, cyflwynwyd ffurflen adrodd newydd i wella casglu data ac adrodd amdano. Roedd hyn yn cynnwys cofnodi carcharorion a welwyd drwy ffenestr drws y gell. Gan y rhoddwyd y newid hwn ar waith yn ystod y flwyddyn, mae nifer y carcharorion a welwyd yn debygol o fod yn uwch na'r ffigur a gofnodwyd.

Yn ystod cyfnodau arbennig o brysur mewn dalfeydd, gall cyfyngiadau amser ar staff y ddalfa sy'n hebrwng ymwelwyr gyfyngu ar nifer y carcharorion y gall ymwelwyr eu gweld. Yn yr amgylchiadau hyn, mae ymwelwyr yn blaenoriaethu cyfweiliadau â phlant ac oedolion agored i niwed.

Data am Ymweliadau Parhad



Nifer y cofnodion a
arolygwyd

37




Amseroedd aros
cyfartalog i gael
mynediad i'r ddalfa

5 munud



Dyddiau'r Wythnos
Dydd Mercher oedd
y diwrnod mwyaf
cyffredin ar gyfer
ymweliadau - 17.
Dydd Sadwrn oedd y
diwrnod lleiaf
cyffredin ar gyfer
ymweliadau - 4.



Amser y Dydd

Roedd ymweliadau
wedi'u dosbarthu'n
gyfartal rhwng y bore
a'r prynhawn.

Amser y Dydd	Nifer yr Ymweliadau
00:00-05:59	0
06:00-11:59	27
12:00-17:59	27
18:00-23:59	8

Mae diwrnodau ac
amseroedd
ymweliadau wedi'u
trafod ag ICVs, a cheir
ymrwymiad i ystyried
hyn wrth gynllunio
ymweliadau ar gyfer
2026/27. Mae ICVs yn
gallu ymweld â'r ddalfa
24 awr y dydd, 7
diwrnod yr wythnos,
365 diwrnod y
flwyddyn.

10



Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru
South Wales Police and Crime Commissioner

Canfyddiadau ICVs

Adrodd

Mae proses uwchgyfeirio glir ar waith i sicrhau bod materion a nodwyd yn ystod ymweliadau yn cael eu trin yn briodol ac mewn modd amserol.

Gall ICVs godi materion uniongyrchol gyda staff y ddalfa yn ystod ymweliad, fel ceisiadau am ddiweddariad ar gadw'r unigolyn, mynediad at alwad ffôn, neu ddarparu bwyd neu ddiod.

Mae unrhyw bryderon brys sy'n ymwneud â lles carcharorion neu amodau cadw yn cael eu cyfeirio ar unwaith at Ringyll y Ddalfa neu Arolygydd a'u hadrodd i Reolwr y Cynllun.

Os bydd carcharor yn codi pryder neu gŵyn anffurfiol, bydd ICVs yn trafod hyn â staff y ddalfa a gallant adolygu cofnod y ddalfa yn unol â chanllawiau'r cynllun.

Ar ôl pob ymweliad, mae ICVs yn cwblhau adroddiad sy'n manylu ar eu canfyddiadau, gan gynnwys sylwadau carcharorion, pryderon lles, ceisiadau, arferion da ac unrhyw faterion cynnal a chadw neu atgyweirio.

Mae Rheolwr y Cynllun yn arolygu adroddiadau ac yn eu trafod mewn cyfarfodydd panel chwarterol ag ICVs a chynrychiolwyr yr heddlu i fonitro tueddiadau, nodi themâu, a sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd.

Cyflawniadau a Materion a Godwyd

Roedd darpariaeth bwyd yn y ddalfa yn parhau i fod yn fater a godwyd yn gyson gan ICVs drwy gydol y flwyddyn.

Roedd hyn yn cynnwys llai o ddewis o brydau bwyd a byrbrydau, diffyg opsiynau iach a llysieuol ar rai ymweliadau, prinder nwyddau ambell waith, a rhywfaint o oedi wrth ddarparu bwyd i garcharorion. Pan gododd Rheolwr y Cynllun y fater, cadarnhaodd Rheolwr y Ddalfa fod rhai brandiau o fyrbrydau wedi'u disodli gan ddewisiadau amgen heb frand ond mae amrywiaeth addas o opsiynau ar gael o hyd. Pan fo'n bosibl, datryswyd problemau'n gyflym ar ôl tynnu sylw staff y ddalfa atynt ac ailgyflenwyd nwyddau pan fo angen.

Roedd arsylwadau cadarnhaol yn cynnwys argaeledd opsiynau heb glwten, gwell lefelau nwyddau yn dilyn prinder, ac ymateb staff i anghenion dietegol. Mewn un enghraifft o arferion da, roedd staff y ddalfa yn caffael bwyd yn allanol ar gyfer carcharor ag anghenion dietegol penodol pan nad oedd opsiwn addas ar gael yn y ddalfa.

Bwyd y Ddalfa



Ystadau a Chyfleus terau

Nododd ICVs heriau sy'n ymwneud ag ystadau a chyfleusterau yn y ddalfa gan gynnwys materion a arweiniodd at gelloedd segur. Nid oedd yr iard ymarfer ar gael ar rai achlysuron chwaith oherwydd problemau gyda'r tywydd neu broblemau cynnal a chadw. Er bod y rhan fwyaf o ddiffygion eisoes yn cael eu datrys gan Reolwyr y Dalfeydd, cyflwynwyd proses fonitro newydd rhwng Ystadau a Rheolwyr y Ddalfeydd i olrhain a datrys problemau parhaus yn well, gan leihau nifer y celloedd segur. Mae ICVs yn parhau i adrodd am faterion ystadau sydd wedi bod yn broblemau hirsefydlog neu sydd wedi bod yn broblemau mynych.

Lefelau

Nododd nifer bach o adroddiadau lefelau isel o nwyddau ar gyfer pecynnau menopos sy'n storio cynhyrchion i'r menopos. Ar ôl tynnu sylw staff y ddalfa at hyn, cafodd hyn ei ddatrys ac archebwyd nwyddau newydd. Codwyd adroddiadau tebyg o ddiffyg blancedi a PPE a datryswyd hyn yn gyflym.

Diddanu ac Eitemau Crefyddol

Adroddodd ICVs yn gadarnhaol fod amrywiaeth o eitemau diddanu ar gyfer carcharorion yn cael eu cynnig yn gyson ac roedd llawer o garcharorion eisoes yn meddu ar eitem fel llyfr cyn cael eu gweld gan ICV. Ar nifer bach o achlysuron, nododd ICVs nad oedd rhai deunyddiau crefyddol ar gael. Ar ôl codi hyn gyda staff y ddalfa, fe'i datryswyd ac fe'i hadolygir fel rhan o'r gwiriadau rheolaidd yn y ddalfa a gynhelir gan Reolwyr.

Proffesiynoldeb Staff a Gofal i Garcharorion

Cofnododd gwirfoddolwyr nifer o enghreifftiau o ofal cadarnhaol i garcharorion, gan gynnwys y defnydd o ragenwau o ddewis ar gyfer carcharor trawsryweddol, staff yn helpu carcharor a oedd yn defnyddio cadair olwyn, gwahanu carcharorion ifanc oddi wrth oedolion yn briodol, chynnig cynhyrchion misglwyf yn gyson i garcharorion benywaidd. Nododd ICVs hefyd fod staff y ddalfa wedi ymateb yn briodol i bryderon lles a meddygol a godwyd yn ystod ymweliadau. Ar un achlysur, uwchgyfeiriodd gwirfoddolwyr bryderon ynghylch asesiad o iechyd meddwl a risg carcharor; rhoddodd Rheolwyr y Ddalfa sicrwydd ynghylch y broses asesu a'r mesurau diogelu a oedd ar waith.

Mynediad am Ymweliad au

Ar sawl achlysur, dewisodd ymwelwyr roi'r gorau i ymweliadau oherwydd busnes y ddalfa. Er mwyn helpu i liniaru ar y sefyllfa hon, rhoddwyd manylion cyswllt uniongyrchol i ICVs ar gyfer Arolygydd Efydd y Ddalfa pe bai angen iddynt ystyried rhoi'r gorau i ymweliad. Mae Rheolwr y Cynllun hefyd yn parhau i roi mewnbwn hyfforddi i staff newydd yn y dalfeydd i sicrhau eu bod yn deall rôl ICVs a'r gofyniad i gynnig mynediad amserol i ddalfeydd, ac eithrio pan fo amgylchiadau iechyd a diogelwch yn gymwys.



Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd

Pwy yw'r Gymdeithas, sef yr ICVA?

Mae Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd yn cael eu cefnogi'n genedlaethol gan Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (yr ICVA). Mae'r ICVA yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r broses ymweld â'r ddalfa drwy eiriolaeth, hyfforddiant, cyhoeddusrwydd a chanllawiau parhaus i bawb sy'n ymwneud â'r cynllun. Mae cynllun de Cymru yn cyflwyno adroddiadau chwarterol i'r ICVA, gan gyfrannu at y darlun cenedlaethol o ymweliadau annibynnol â dalfeydd.

Y Fframwaith Sicrhau Ansawdd

Nod Fframwaith Sicrhau Ansawdd Cenedlaethol (QAF) y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA) yw hyrwyddo cysondeb ar draws cynlluniau Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd a chefnogi dull unedig o reoli a chyflawni ymweliadau â ddalfeydd. Drwy'r fframwaith gall cynlluniau feincnodi eu perfformiad ac ysgogi gwelliant parhaus drwy offeryn asesu wedi'i deilwra, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n helpu i nodi cryfderau, tynnu sylw at feysydd i'w datblygu, ac ategu'r gwaith o gyflawni arferion gorau.

Mae pedair lefel raddedig o ddyfarniad:

- Cwyn God
- Arian
- Aur
- Platinwm



Yn 2026, dyfarnodd yr ICVA Wobr Fframwaith Sicrhau Ansawdd Arian i Gynllun ICVs De Cymru.

Eleni, cyflwynodd yr ICVA 'Leisiau Gwirfoddolwyr' i'r QAF, gan sicrhau bod y broses asesu yn adlewyrchu barn a phrofiadau gwirfoddolwyr.

Y Cynllun Ymweliadau Lles Anifeiliaid

Trosolwg o'r Cynllun

Mae Cynllun Lles Anifeiliaid De Cymru yn gynllun anstatudol wedi'i gefnogi gan 7 gwirfoddolwr. Mae'r gwirfoddolwyr yn cynnal ymweliadau dirybudd rheolaidd ag Adran Cŵn a Cheffylau Heddlu De Cymru i arsylwi ac adrodd ar y trefniadau lles, y stablau a'r cenelau ar gyfer ceffylau a chŵn yr heddlu.

Mae ymwelwyr yn adrodd am nifer y cŵn a'r ceffylau ar y safle ac unrhyw bryderon penodol ynghylch iechyd neu les, yn ogystal ag adrodd ar gyflwr ffisegol y safle, cyflwr cerbydau cludo anifeiliaid ac unrhyw broblemau atgyweirio. Cynhelir cyfarfodydd panel yn aml ac fe'u mynychir gan staff, swyddogion, Ystadau Heddlu De Cymru, gwirfoddolwyr, milfeddyg lleol, a chynrychiolwyr o'r Dogs Trust.

Cyflwynwyd ffurflen adrodd newydd yn y cyfnod hwn i gasglu gwybodaeth fanylach am les yr anifeiliaid. Mae gwaith adrodd bellach yn cynnwys ffurflen adrodd wahanol i gŵn a cheffylau'r heddlu i sicrhau bod eu hanghenion lles penodol yn cael eu nodi a'u monitro.



Mae pob ymweliad yn cael ei arwain gan y pum angen lles i anifeiliaid a gydnabyddir yn gyfreithiol:

- yr angen am amgylchedd addas #
- yr angen am ddeiet addas
- yr angen i arddangos patrymau ymddygiad arferol
- yr angen i gael eu cadw gydag anifeiliaid eraill, neu ar wahân iddynt, fel y bo'n briodol
- yr angen i gael eu hamddiffyn rhag poen, dioddefaint, anafiadau a chlefydau

2

Gyfarfod
Panel

19

o ymweliadau

Cyflawniadau a Heriau

Cododd gwirfoddolwyr faterion a oedd yn gysylltiedig â'r ystad yn ymwneud â'r ysgubor, defnyddioldeb y marchgae, tynnu gwastraff, materion draenio ac anghenion atgyweirio cenelau/stablau. Mae materion yn cael eu codi gyda Rheolwr yr Iard a'u trafod mewn cyfarfodydd panel sydd bellach yn cynnwys aelod o'r Tîm Ystadau. Mae llawer o welliannau cadarnhaol wedi'u gwneud ers hynny gan gynnwys ysgubor wair newydd, atgyweirio cenelau/stablau, atgyweiriadau draenio a newidiadau i'r marchgaeau i atal cronni dŵr.

14



Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru
South Wales Police and Crime Commissioner

Staff

Mae ymwelwyr yn gwneud sylwadau'n rheolaidd ar agwedd gadarnhaol staff, gan dynnu sylw at eu hagwedd goresawgar a chyfeillgar. Mae staff yn barod i ateb cwestiynau ac yn dangos ymrwymiad clir i les cŵn a cheffylau'r heddlu yn eu gofal.

Lles Anifeiliaid a'u Gofal

Mae gwirfoddolwyr yn aml yn adrodd bod anghenion lles y cŵn a'r cheffylau sy'n bresennol yn ystod ymweliadau wedi'u diwallu. Ar un achlysur, gwelwyd bod ci yn orbryderus wrth gael ei gartrefu mewn cenel ac yna cafodd ei symud i ardal fwy a mwy agored i gefnogi ei les yn well.

Nododd ymwelwyr hefyd fod cheffylau yn elwa o ryngweithio'n rheolaidd â'i gilydd. Mae staff yn ystyried cyfleoedd cyfoethogi ychwanegol i gŵn a cheffylau i gefnogi eu lles.

Cerbydau

Adroddwyd bod dŵr ar gael i gŵn sy'n aros mewn cerbydau, mae drysau/y gist ar agor ac mae'r aerdymheru ar waith. Arsylwodd gwirfoddolwyr fod cerbydau mewn cyflwr da a bod problemau yn ymwneud â matiau wedi'u rhwygo ar un achlysur wedi'u datrys yn gyflym pan roddwyd gwybod i staff.

Cymorth Cyntaf

Nododd gwirfoddolwyr nad oedd gan drinwyr cŵn fynediad at becynnau cymorth cyntaf pwrpasol i'r cŵn. Ymdriniwyd â'r mater hwn yn brydlon, drwy brynu pecynnau cymorth cyntaf cŵn a'u rhoi ar gael i staff. Yn ogystal, mae staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf i gŵn, gan atgyfnerthu ymhellach eu gallu i ymateb i anghenion lles ac argyfyngau.

Dogs Trust

Mae'r Dogs Trust, sy'n cynnig arbenigedd mewn lles cŵn, yn cydnabod ac yn cefnogi'r cynllun. Mae cynrychiolwyr y Dogs Trust yn mynychu cyfarfodydd panel, ymweliadau, hyfforddiant cŵn a sesiynau craffu eraill.

Mewn perthynas â hyfforddiant, mae gwirfoddolwyr wedi cael mynediad at 'Dogs Trust Campus', platfform cyrsiau ar-lein sy'n cynnig hyfforddiant mewn perthynas ag ymddygiadau cŵn ac addysg lles ar gyfer swyddogion yr heddlu a staff sy'n gofalu am gŵn sy'n gweithio.

Eleni mae gwirfoddolwyr wedi cwblhau nifer o gyrsiau ar-lein ar bynciau amrywiol gan gynnwys iaith corff y cŵn, trin cŵn, cyfoethogi a bwydo.

15



Craffu Ychwanegol ar Les Anifeiliaid

Yn ystod y cyfnod hwn, parhaodd y Cynllun Lles Anifeiliaid i hyrwyddo dull cyfannol o asesu a monitro lles anifeiliaid. Ochr yn ochr ag ymweliadau rheolaidd, a oedd yn sicrhau bod yr holl anifeiliaid yn cael eu gweld a'u lles yn cael ei ystyried, gwnaeth gwirfoddolwyr a chynrychiolwyr o'r Dogs Trust gymryd rhan mewn sesiynau craffu ac arsylwadau ychwanegol i gefnogi goruchwyliaeth barhaus a gwelliant parhaus. Cafodd adborth o'r sesiynau ei rannu a'i drafod â Heddlu De Cymru, cytunwyd ar gamau gweithredu i fynd i'r afael ag adborth penodol a rhannwyd arferion cadarnhaol â thimau ehangach pan roedd hynny'n briodol.

Hyfforddiant Cŵn

Ym mis Hydref 2025, arsylwodd aelodau'r panel, gan gynnwys y Dogs Trust, ar hyfforddiant cŵn cyffredinol i adolygu lles y cŵn yn ystod hyfforddiant. Arsylwir ar hyfforddiant cŵn eto yn 2026/27.

Sesiwn Craffu ar Wiriadau Blynnyddol gan Filfeddygon

Eleni cynhaliodd aelodau'r panel ymarfer craffu a oedd yn cynnwys arolygu'r gwiriadau milfeddygol blynnyddol ar gyfer cŵn a cheffylau'r heddlu, wedi'u hwyluso gan Reolwr y Cynllun.

Sesiwn Craffu ar Wiriadau Cenedlau Gartref

Gyda chymorth Rheolwr y Cynllun, arolygodd Gwirfoddolwyr a'r Dogs Trust sampl o ffurflenni gwirio cenedlau gartref a gwblhawyd gan Heddlu De Cymru i sicrhau bod gwiriadau o genelau'n cael eu cynnal i safon uchel a bod amgylcheddau mewn cenedlau'n bodloni'r safonau lles gofynnol.



Eleni, sefydlwyd partneriaeth â Chymdeithas Ceffylau Prydain, ac ymwelodd cynrychiolwyr â'r safle i ddarparu cyngor lles ac adborth ar y Cynllun. Bydd y berthynas hon yn parhau i ddatblygu, gan helpu i lywio gwelliannau yn y dyfodol ac atgyfnerthu'r gwaith craffu a goruchwyllo lles yn adran ceffylau Heddlu De Cymru.



Myfyrdodau Heddlu De Cymru

Jason Herbert, Pennaeth Gwasanaethau Dalfeydd

"Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVs) wedi parhau i chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi tryloywder, atebolrwydd a hyder y cyhoedd yn nalfeydd Heddlu De Cymru. Drwy eu hymweliadau rheolaidd a dirybudd, mae ICVs yn craffu'n annibynnol ar driniaeth, hawliau a lles pobl sy'n cael eu cadw yn nalfeydd yr heddlu.

Mae eu sylwadau yn helpu i sicrhau bod arferion mewn dalfeydd yn parhau i fod yn gyson â gofynion cyfreithiol, safonau hawliau dynol, a'r disgwyliadau uchel sydd gan y cyhoedd.

Mae'r berthynas rhwng ICVs, staff dalfeydd, a'r Panel Craffu ar Ddalfeydd yn parhau i fod yn gadarnhaol ac yn adeiladol. Mae adborth annibynnol yn rhoi sicrwydd gwerthfawr lle mae safonau'n cael eu bodloni, wrth hefyd nodi cyfleoedd i wella. Mae'r dull cydweithredol hwn yn ategu diwylliant o fod yn agored, dysgu, a datblygiad parhaus ar draws ein dalfeydd.

O safbwynt arweinyddiaeth y dalfeydd, mae'r craffter annibynnol gan ICVs yn rhan bwysig o sicrhau bod carcharorion yn cael eu trin ag urddas, parch a thegwch. Mae parodrwydd ymwelwyr i herio prosesau, gofyn cwestiynau, a rhoi arsylwadau diduedd yn atgyfnerthu ein gallu i arolygu arferion a gwneud gwelliannau sy'n seiliedig ar dystiolaeth pan fo angen.

Mae cyfraniad parhaus Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn rhoi sicrwydd i Heddlu De Cymru a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu bod gwasanaethau dalfeydd yn destun goruchwyliaeth allanol ystyrlon. Mae eu gwaith yn helpu i hyrwyddo hyder y cyhoedd, yn cefnogi lles carcharorion, ac yn cyfrannu at ddatblygiad parhaus amgylcheddau diogel, moesegol a phroffesiynol mewn dalfeydd."

Adrian Snook, Prif Arolygydd Adran Cŵn a Cheffylau'r Heddlu



"Rydym wedi bod yn ddiolchgar am gefnogaeth Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau i sefydlu'r cynllun hwn sydd wedi craffu'n annibynnol ar ein darpariaeth er lles anifeiliaid ac sy'n sicrhau ein bod yn parhau i godi safonau gofal ein hanifeiliaid sy'n gweithio. Byddwn yn parhau i groesawu'r gwirfoddolwyr i'n safle ac yn gweithio gyda phartneriaid fel bod ein hanifeiliaid yn cael yr amodau gorau posibl i wasanaethu'r cyhoedd yn ne Cymru a thu hwnt."

Yn Edrych Ymlaen at 2026/27

Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd



Bydd y Cynllun yn parhau i adeiladu ar ei Wobr Arian drwy'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd, gan weithio tuag at statws Aur drwy fynd i'r afael â meysydd i'w datblygu a sicrhau bod y safonau uchaf o graffu, llywodraethiant ac ymgysylltu â gwirfoddolwyr annibynnol yn cael eu cyflawni'n gyson.

Blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod yw ymsefydlu gwirfoddolwyr newydd eu recriwtio a pharhau â gweithgarwch recriwtio wedi'i dargedu i gynyddu nifer y gwirfoddolwyr.




Bydd y Cynllun yn parhau i ddarparu cyfleoedd i hyfforddi a datblygu gwirfoddolwyr, gan ddarparu rhaglen hyfforddi sy'n adlewyrchu gofynion gweithredol ac adborth gwirfoddolwyr.

Bydd Rheolwr y Cynllun yn gweithio gydag ymwelwyr i annog mwy o ymweliadau ar y penwythnos ac yn hwyr yn y nos.



Bydd y Cynllun yn archwilio atebion digidol i symleiddio'r broses adrodd, gan alluogi cyflwyno adroddiadau yn gyflymach a mynediad mwy amserol at wybodaeth.

Cynllun Ymweliadau Lles Anifeiliaid



Parhau i feithrin perthnasoedd â sefydliadau sy'n arbenigo mewn ceffylau i atgyfnerthu craffu ar Adran Ceffylau Heddlu De Cymru.

Bydd y Cynllun yn parhau i atgyfnerthu ei ymagwedd gyfannol at graffu ar les anifeiliaid drwy ymweliadau rheolaidd, arsylwi ar weithgareddau hyfforddi cŵn, ac adolygu cofnodion lles perthnasol.



18



Cysylltu â ni

Oes gennych ddiddordeb mewn dod yn Wirfoddolwr Annibynnol â Dalfeydd yn ne Cymru?

Ewch i <https://www.comisiynydddecymru.org.uk/cynlluniau-ymweld-i-wirfoddolwyr//> neu e-bostiwch volunteer@south-wales.police.uk am wybodaeth ynglŷn â sut i gyflwyno cais.

Am ragor o wybodaeth am eich Comisiynydd a gwaith Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru, ewch i:



/commissionersw

www.southwalescommissioner.org.uk

Neu cysylltwch â ni drwy:

commissioner@south-wales.police.uk

01656 869 366

Pencadlys Heddlu De Cymru, Heol y Bont-faen,

Pen-y-bont

ar Ogwr,

CF31 3SU

Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd

Os hoffech ragor o wybodaeth am rôl y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA) genedlaethol, ewch i: <https://icva.org.uk/>

<https://www.nationalpreventivemechanism.org.uk/>

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn mynegi eu diolchgarwch diffuant i'r holl wirfoddolwyr sydd wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod lles a hawliau carcharorion yn nalfeydd Heddlu De Cymru ac anifeiliaid yr heddlu wedi'u cynnal. Mae'r wybodaeth, yr arbenigedd a'r ymrwymiad y mae ymwelwyr yn parhau i'w cynnig i'r cynllun yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac maent yn chwarae rhan hanfodol wrth ategu goruchwyliaeth ac atebolrwydd Heddlu De Cymru.

